Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ward Llawr Cyntaf, Canolfan Ganser Felindre, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

## Dyddiad yr arolygiad: 12-13 Gorffennaf 2022

## Dyddiad cyhoeddi: 12 Hydref 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN digidol 978-1-80364-939-9
© Hawlfraint y Goron 2022

Ar y cyfan, canfuom fod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol. Gwelsom ryngweithio caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd prosesau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan y cleifion, ymateb iddo a dysgu ohono.

Gwelsom fod y ward a'r Ymddiriedolaeth ehangach yn ymrwymedig i gynnal diogelwch y cleifion, a oedd yn amlwg drwy ei phrosesau archwilio a llywodraethu. Roedd rhai o'r gwelliannau a nodwyd gennym, megis atal cwympiadau, eisoes wedi'u cydnabod gan yr Ymddiriedolaeth a gwelsom dystiolaeth bod gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn.

Gwelsom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward, ac roedd y staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan reolwr y ward.

Cawsom adborth hefyd gan gleifion a fynegodd farn gadarnhaol am y gwasanaeth a'r triniaethau a gawsant.

Gwnaethom nodi nifer fach o feysydd i'w gwella, ond ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith / diogelwch cleifion brys.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut yr ydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r Ward Llawr Cyntaf, Canolfan Ganser Felindre ar 12-13 Gorffennaf 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd profiad y claf.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

Ar y cyfan, canfuom fod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol. Gwelsom ryngweithio caredig a pharchus rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd prosesau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan y cleifion, ymateb iddo a dysgu ohono.

## Yr hyn y canfuom a wnaed yn dda gan y gwasanaeth hwn

- Gwelsom fod yr holl ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn garedig ac yn barchus
- Roedd prosesau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan y cleifion, ymateb iddo a dysgu ohono.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

Cawsom y sylwadau canlynol gan y cleifion:

> *"Mae'r claf yn teimlo bod y ward yn gyfeillgar iawn. Dewis da o fwyd"*
>
> *"Mae'n braf ac yn heddychlon ar gyfer gwella. Mae'r cleifion yn cael eu hannog i fynd y tu allan"*
>
> *"Ysbyty unigryw"*

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

Ar y cyfan, canfuom fod y ward a'r Ymddiriedolaeth ehangach yn ymrwymedig i gynnal diogelwch y cleifion, a oedd yn amlwg drwy ei phrosesau archwilio a llywodraethu. Roedd rhai o'r gwelliannau a nodwyd gennym, megis atal cwympiadau, eisoes wedi'u cydnabod gan yr Ymddiriedolaeth a gwelsom dystiolaeth bod gwaith yn mynd rhagddo yn y meysydd hyn.

## Yr hyn y canfuom a wnaed yn dda gan y gwasanaeth hwn

- Agweddau ar atal a rheoli heintiau wrth helpu i gynnal amgylchedd glân a diogel
- Roedd y gwasanaeth yn rheoli, yn storio ac yn rhoi ei gynhyrchion gwaed yn effeithiol
- Roedd gweithgarwch archwilio'n cael ei gwblhau'n rheolaidd a gweithredwyd arno i helpu i gynnal gofal diogel ac effeithiol

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Mae angen ffocws parhaus ar atal cwympiadau er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion
- Gellid cryfhau agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Gellid cryfhau'r gwaith o gynllunio gofal unigol ac agweddau ar gadw cofnodion

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Crynodeb cyffredinol

Gwelsom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward, ac roedd y staff yn gwneud sylwadau cadarnhaol am y gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan reolwr y ward.

## Yr hyn y canfuom a wnaed yn dda gan y gwasanaeth hwn

- Gwelsom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth gadarnhaol ar y ward

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Gallai'r Ymddiriedolaeth ystyried agweddau ar adborth y staff a ddarparwyd yn y prif adroddiad.

# Y camau nesaf

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

